# Polisi Codi Tál

**Dyddiad adolygu a mabwysiadu:**

**Date reviewed and adopted:** **03.10.2023**

**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** **Hydref 2024**

**Date of next review:** **Autumn 2024**

**Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:**

**Signature of chair of governors:** **Karen Thomas**

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau rydym yn addysgu am hawliau plant a hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas.

*Noder nad yw'r ysgol yn cyfrannu at gostau dysgwyr PYDd sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol.

**Polisi Codi Tâl YGG Bryniago**

**Polisi'r Llywodraethwyr ar Godi Tâl ar gyfer Gweithgareddau'r Ysgol**

## 1. Rhagymadrodd

Nid yw'r disgyblion yn talu am yr addysg rydym yn ei ddarparu yn ystod oriau ysgol arferol. Nid ydym yn codi tâl am unrhyw weithgaredd sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ac eithrio rhywfaint o hyfforddiant cerddoriaeth ar gyfer rhai unigolion neu grwpiau bychain.

Mae Ysgol Bryniago wedi penodi "Pencampwr Ceri"; llywodraethwr sy'n gwneud yn siwr bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio i sicrhau bod y diwrnod ysgol mor fforddiadwy â phosibl i deuluoedd.
Pencampwr Ceri Ysgol Bryniago yw: Mrs Rebecca Thomas

## 2. Cyfraniadau gwirfoddol

Pan gaiff gwibdeithiau neu ymweliadau ysgol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiad addysgol y plant eu trefnu, mae'r ysgol yn gwahodd rhieni a gwarcheidwaid gyfrannu tuag at y gost. Mae pob cyfraniad yn wirfoddol. Os nad ydym yn derbyn cyfraniadau gwirfoddol digonol, gall y byddwn yn gohirio'r wibdaith. Os cynhelir y wibdaith, gall fod plant nad yw eu rhieni neu warcheidwaid wedi cyfrannu, barhau i fynd y wibdaith honno. Nid ydym yn trin y plant hynny'n wahanol i'r gweddill.

Os yw rhiant yn dymuno i'w blentyn ef/hi fynd ar wibdaith ysgol neu gymryd rhan mewn digwyddiad, ond yn amharod i neu heb allu gwneud cyfraniad gwirfoddol, rydym yn caniatáu'r plentyn gymryd rhan lawn yn y wibdaith neu weithgaredd. Weithiau, mae'r ysgol yn talu costau ychwanegol er mwyn cefnogi'r ymweliad. Mae gan rieni a gwarcheidwaid hawl i wybod sut caiff pob gwibdaith ei chyllido, a rhydd yr ysgol y wybodaeth hon, ar gais rhieni/gwarcheidwaid.

Os oes unrhyw riant yn ei chael yn anodd talu, fe'i gwahoddir i weld y Pennaeth ac fe wneir trefniadau eraill i oresgyn y broblem. Ni eithrir unrhyw blentyn o'r gweithgareddau ar sail anallu neu amharodrwydd i gyfrannu'n wirfoddol.

Rhestrir isod weithgareddau ychwanegol, wedi eu trefnu gan yr ysgol, ble mae'n ofynnol cael cyfraniadau gwirfoddol gan rieni a gwarcheidwaid. Gelwir y gweithgareddau hyn yn 'bethau ychwanegol dewisol'. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr:

- ymweliadau ag amgueddfeydd;
- gweithgareddau chwaraeon ble mae angen treuliau cludiant;
- gweithgareddau antur awyr agored;
- ymweliadau â neu gan gwmni theatr;
- digwyddiadau cerddorol.

## 3. Ymweliadau preswyl

Os yw'r ysgol yn trefnu ymweliad preswyl yn ystod oriau ysgol, neu'n bennaf yn ystod oriau ysgol, ble darperir addysg sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol, nid ydym yn codi tâl am y treuliau addysg neu dreuliau teithio. Fodd bynnag, rydym yn gofyn am dâl i gwrdd â chostau bwyd a llety. Os na allwn godi arian digonol trwy'r cyfraniadau gwirfoddol hyn, efallai bydd yn rhaid gohirio'r ymweliad, ac y byddai'n rhaid ymdrin â'r agwedd honno o'r cwricwlwm trwy ddulliau eraill.

*Noder nad yw'r ysgol yn cyfrannu at gostau dysgwyr PYDd sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol.

Ar gyfer teithiau preswyl, telir am deithiau mewn sawl rhandal fel y bo'n briodol (rhoddir amser hirach i blant sydd yn derbyn cinio ysgol am ddim). Bydd llythyron at rieni'n dangos y cynigir posibiliadau eraill o ran talu os bydd hyn yn achosi problemau. Bydd rhaid sicrhau taliad llawn CYN dyddiad dechrau'r cwrs preswyl.

Bydd yr holl arian, heblaw am flaendaliadau, yn cael ei ad-dalu mewn achosion o salwch, pan na fydd plentyn yn gallu cymryd rhan. BYDD ANGEN LLYTHYR DOCTOR I GADARNHAU'R SALWCH. Bydd amgylchiadau eraill nad oedd modd eu rhagweld yn ôl disgresiwn y Pennaeth.

Dylid nodi na fyddai ad-daliad ar gyfer materion sy'n ymwneud ag ymddygiad lle byddai'n rhaid i blentyn gael ei gasglu o weithgaredd preswyl.

**4 . Dysgu Offerynnol**

Mae pob plentyn yn astudio cerddoriaeth fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol. Nid ydym yn codi tâl am hyn. Codir tâl am hyfforddiant cerddoriaeth unigol neu ar gyfer grŵp bychan, gan fod hwn yn weithgaredd cwricwlwm ychwanegol, ac nid yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Caiff y gwersi hyn ar gyfer unigolion neu grŵp bychan eu dysgu gan athrawon cerdd teithiol. Rhoddwn wybodaeth i rieni a gwarcheidwaid ynghylch hyfforddiant cerddoriaeth ychwanegol ar ddechrau pob blwyddyn ysgol.

Ble mae darpariaeth ar gyfer gwersi offerynnol unigol penderfyniad y Corff Llywodraethol yw codi tâl o £35.00 y tymor am y gwersi yma. Bydd hyn yn caniatau'r disgyblion i gael mynediad i oleiaf 10 gwers y tymor (cost o tua £3.50 y wers). Pe bai hyn yn cael ei gwtogi yna bydd yr ysgol yn lleihau'r gost am wersi y tymor nesaf neu yn rhoi ad-daliad (£3.50 y wers). Rhaid talu am y gwersi ar ddechrau bob tymor. Ni roddir gwersi heb daliad. Fe all hyd y wers amrywio o offeryn i offeryn. Bydd cost arholiadau cerddoriaeth yn ogystal a chost trafnidiaeth i arholiadau offerynnol yn cwympo ar y rhieni.

4. **Nofio/ Gymnasteg**

Mae'r ysgol yn trefnu gwersi nofio ar gyfer pob plentyn ym Ml.3-4. Cynhelir y rhain yn ystod oriau ysgol ac maent yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Nid ydym yn codi tâl am y gweithgaredd hwn, ond gofynnwn am gyfraniad gwirfoddol gan rieni a gwarcheidwaid i dalu am gludiant. Rydym yn hysbysu'r rhieni a'r gwarcheidwaid pan gynhelir y gwersi hyn, a gofynnwn am ganiatâd ysgrifenedig rhieni neu warcheidwaid i'w plant gymryd rhan.
Codir tâl am gost teithio i gystadleuaeth nofio/ gymnasteg. Gall yr ysgol ofyn i rieni i drefnu cludiant i gystadlaethau nofio eu hunain.

5. **Clwb ar ôl Ysgol**

Bydd taliadau ar gyfer y Clwb ar ôl Ysgol yn mynd i 'Pitter Patter' yn uniongyrchol.

6. **Polisi Codi Tâl ar gyfer Gosodiadau**

Bydd yr adeilad ond yn cael ei osod i bobl sy'n gallu cydymffurfio â'r arweiniad presennol ar wiriadau SCT os ydynt yn gweithio gyda disgyblion Ysgol Gymraeg

*Noder nad yw'r ysgol yn cyfrannu at gostau dysgwyr PYDd sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol.

Bryniago. Bydd yn rhaid gwirio copïau o'r ddogfennaeth yswiriant berthnasol cyn caniatáu i diwtoriaid gynnal gweithgareddau gyda disgyblion y tu allan i oriau ysgol. Bydd hyn yn gyfystyr ag 'Yswiriant Atebolrwydd Personol'.

Prisiau'r gosodiadau yw:

- £25 yr awr ar gyfer neuadd yr ysgol (15:00-18:00, Llun-Gwener)
- £25 yr awr ar gyfer ystafell ddosbarth (15:00-18:00, Llun-Gwener)

*Bydd cost llogi'r ysgol yn fwy yn ystod gwyliau ysgol/ wedi 6:00 y.h.*

Rhoddir gosodiadau am ddim i sefydliadau ac unigolion yr ystyrir gan y corff llywodraethu eu bod yn cynnal gweithgareddau allgyrsiol i'r disgyblion nad ydynt yn gwneud elw ac mae tiwtoriaid ond yn codi tâl i dalu costau cynnal y clwb – gallai hyn gynnwys ffioedd cyswllt i gyrff rheoli, treuliau teithio. Caiff taliadau gosod eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn a gellir creu cytundebau unigol i bobl sydd am gymryd rhan mewn 'gosodiadau tymor hir sydd am fwy nag awr y sesiwn'. Mae ffioedd gosod yn cael eu cyfansymio bob hanner tymor neu bob tymor ac yn cael eu hanfonebu i'r sawl sy'n gosod y safle. Mae'r sieciau'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyllideb yr ysgol a chyfrifir ar eu cyfer fel 'incwm'. Pe bai'r tymor yn cael ei dorri'n fyr neu pe bai'r ysgol yn cau oherwydd tywydd garw yna ad-dalir y ffi yn llawn i'r cwmni sy'n llogi'r adeilad.

Bydd gosodiadau rhad ac am ddim i sefydliadau ac unigolion sy'n cael eu hystyried gan y Corff Llywodraethol i fod yn cynnal gweithgareddau allgyrsiol sydd er budd i ddisgyblion yr ysgol. Bydd y clybiau hyn sydd am ddim onibai bod angen gofyn am gyfraniad i glybiau arbennig e.e. Yr Urdd, coginio.

7. **Codi Tâl am Berfformiadau Arbennig a Digwyddiadau** (gan gynnwys cyngherddau ysgol):

Codir tâl bychan am fynychu cyngherddau Nadolig: £3.50
Bydd mynediad trwy docyn / rhaglen yn unig er mwyn cydymffurfio â rheoliadau tân a'r nifer o oedolion sy'n ddiogel i fod i eistedd yn y neuadd ar gyfer unrhyw berfformiad. Bydd yr elw yn cael ei fancio yn y Gronfa Ysgol a ddefnyddir ar gyfer amrywiaeth o ddibenion e.e. i ddarparu ystod o brofiadau i'r disgyblion, digwyddiadau arbennig, costau gweithio gydag Artistiaid, cyllido teithiau arbennig neu ar adnoddau i gyfoethogi'r cwricwlwm ysgol ayb.

Nid yw'r ysgol yn codi tâl ar gyfer mynediad i unrhyw ddigwyddiadau arbennig arall, megis y gwasanaethau dosbarth.

Bydd rhoddion megis rhoddion y cynhaeaf/ Opertaion Christmas Child ayb. a wnaed yn cael eu rhoi i elusen a ddewiswyd gan y Pennaeth, aelodau o staff yr ysgol a'r Cyngor Ysgol. Bydd casglaidau o roddion elusennol a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer unrhyw sefydliad a ddewiswyd yn cael eu casglu yn yr un modd. Bydd yr elw o ddigwyddiadau o'r fath yn cael eu bancio yn y Gronfa Ysgolion ac yna'n talu gan siec i'r sefydliad a ddewiswyd.

8. **Codi tâl am Dorri neu Ddifrod i Eiddo Ysgol**

Nid yw'r ysgol yn codi tâl ar gyfer digwyddiadau o'r fath, ond lle mae plentyn wedi achosi difrod yn fwriadol neu wedi torri eitem - yn dilyn ymgynghoriad â rhieni, gofynnir am 'rodd' bach. Os nad yw rhieni yn teimlo bod hyn yn briodol, bydd eu barn yn cael ei barchu bob amser.
Am ddifrod mawr / damweiniau, bydd hawliad yswiriant yn cael ei wneud i dalu costau.

9. **Codi tâl am Ddigwyddiadau CRA:**

Bydd taliadau a wneir ar gyfer gymryd rhan mewn digwyddiadau neu dalu am adnoddau ar gyfer yr ysgol a drefnir gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn amodol ar drafodaeth gan Bwyllgor y

*Noder nad yw'r ysgol yn cyfrannu at gostau dysgwyr PYDd sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol.

CRA. Pwyllgor a'r Pennaeth.

**10. Codi tâl am Glwb Brecwast:**

Mae'r ysgol yn darparu "Clwb Gofalu" rhwng 7.50 a.m. ac 8.20 a.m. am £1.05 y plentyn y dydd a 50c am bob trydydd plentyn neu fwy mewn teulu. Caiff yr arian hwn ei dalu bob dydd Iau cyn yr wythnos ganlynol a chyn cwblhau'r ffurflen archebu lleBydd y Clwb Brecwast rhad ac am ddim yn dechrau am 8.20 a.m. Yr amser hwyraf i gyrraedd ar gyfer brecwast fydd 8.30 a.m.

**11. Cefnogaeth ariannol i ddysgwyr di-freintiedig:**

Mae sicrhau bod cost y diwrnod ysgol yn addas ar gyfer bob dysgwr yn allweddol bwysig i ni yn YGG Bryniago. Mae'r Corff Llywodraethol wedi penodi aelod sy'n goruchwylio hyn:
Pencampwr Ceri: Mrs Rebecca Thomas
Bydd Pencampwr Ceri yn gwneud yn siwr bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio i sicrhau bod y diwrnod ysgol mor fforddiadwy â phosibl i deuluoedd.

Bydd yr ysgol yn ystyried barn rhieni/ gwarchodwyr CYN trefnu unrhyw ymweliad. Rhoddir ystyriaeth deg a pharchus i farn rhieni/ gwarchodwyr am gost yr ymweliad ac am y nifer o ymweliadau a drefnir yn ystod y tymor/ y flwyddyn.

Bydd yr ysgol yn gweithio'n agos gyda'r CRA a'r Cyngor Ysgol er mwyn sicrhau cydbwysedd teg o ran diwrnodau codi arian. Bydd hyn yn cynnwys:

- Diwrnodau codi arian i elusen (e.e. Plant Mewn Angen)- dim mwy nag dau bob tymor
- Gweithgareddau CRA- dim mwy na phedwar bob tymor

Er mwyn cefnogi teuluoedd gyda diwrnodau di-wisg ysgol, mae'r ysgol wedi cydweithio'n llwyddiannus gyda'r CRA i sefydlu siop wisg ysgol ail-law sy'n cynnwys casgliad o wisgoedd Nadolig, Diwrnod y Llyfr a Gwisg Dydd Gwyl Dewi. Gall rhieni/ gofalwyr 'brynnu'r' wisg trwy

https://app.uniformd.co.uk/items/ysgol-gynradd-bryniago

Mae gan yr ysgol nifer o strategaethau mewn lle er mwyn cefnogi rhieni/ gofalwyr dysgwyr sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim. Dylid nodi nad yw'r canlynol ar gyfer y dysgwyr sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol:

**a)** Darparir ffrwyth am ddim i bob plentyn sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.
**b)** Darparir byr-bryd Gwener Gwych am ddim i blant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.
**c)** Gall dysgwyr sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim gael gwisg ysgol ail-law trwy siop y CRA
**d)** Ni fydd yr ysgol yn codi swm ariannol am gost teithio i ymweliad addysgiadol un-dydd
**e)** Ni fydd yr ysgol yn codi swm ariannol am gost teithio i gystadleuaeth ysgol
**f)** Bydd pob disgybl sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cael cynnig dysgu un offeryn am ddim o flwyddyn 3-flwyddyn 6
**g)** Bydd yr ysgol yn talu 25% o gost ymweliad preswyl Blwyddyn 4.
**h)** Bydd yr ysgol yn talu 25% o gost ymweliad preswyl Blwyddyn 5.
**i)** Bydd yr ysgol yn talu 50% o gost ymweliad preswyl Blwyddyn 6.
j) Gall dysgwyr sydd yn ymwys i brydau ysgol am ddim fynychu'r Clwb gofalu (07:50-8:20) am ddim bob dydd.
k) Ni fydd angen i ddysgwyr sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim i dalu cost myncyhu clwb cwricwlwm ar ol ysgol a redir gan yr ysgol e.e clwb coginio
l) Ni fydd yr ysgol yn disgwyl i blant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim i roi cyfraniad ariannol ar ddiwrnodau codi arian elusennol.

*Noder nad yw'r ysgol yn cyfrannu at gostau dysgwyr PYDd sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol.

m) Ni fydd yr ysgol yn codi tal am gost eitem personol plentyn sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn y Ffair Nadolig na'r Ffair Haf.
n) Rhoddir tocyn i riant/rieni/ goflawr/gofalwyr disgybl sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim i un perfformiad Nadolig.

### 12. Rheoli'r Gronfa Ysgolion

Bydd y llog a enillir ar yr holl arian yng nghronfa'r ysgol yn aros yng nghronfa'r ysgol. Mae cronfa'r ysgol yn cael ei rheoli a'i chynnal gan Mrs Rhian Gealy, ysgrifenyddes yr ysgol ar y cyd â Miss Nia Jones, y pennaeth. Mae angen dau lofnodwr ar gyfer awdurdodi sieciau. Mae'n rhaid i un o'r ddau lofnodwr hyn fod y pennaeth neu'r dirprwy bennaeth. Archwilir cronfa'r ysgol gan lywodraethwr/ aelod o'r gymuned sy'n arbenigol ym maes cyllid yn flynyddol a chan archwiliwr Dinas a Sir Abertawe bob tair blynedd. Rhoddir adborth ar y canfyddiadau i'r corff llywodraethu llawn trwy'r adroddiad archwilio ffurfiol. Gwirir yr archwiliad blynyddol gan gadeirydd y llywodraethwyr, nad yw'n llofnodwr ar gyfer y gronfa.
Mae holl gofnodion cronfa'r ysgol ar gael i graffu arnynt ac maent yn cael eu cyflwyno i'r corff llywodraethu'n flynyddol ar ôl yr archwiliad.

### 13. Monitro ac adolygu

Dirprwyir i'r pennaeth yr hawl i benderfynu i ba raddau, os o gwbl, y defnyddir arian allan o gronfa'r ysgol neu ffynhonnell arall i dalu cyfran o gost y gweithgareddau. Dirprwyir i'r pennaeth yr hawl i benderfynu ar achosion sy'n codi wrth weithredu'r polisi hwn. Caiff y polisi hwn ei fonitro gan y corff llywodraethol, a chaiff ei adolygu yn flynyddol neu'n amlach na hynny os oes angen.

*Noder nad yw'r ysgol yn cyfrannu at gostau dysgwyr PYDd sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol.

**Atodiad A:**

**Taliadau Ysgol**

Mae'r ysgol yn defnyddio system taliadau ar-lein iPay i dalu am eitemau bob dydd yn ysgol eich plentyn.

Ewch i wefan yr ysgol am fwy o wybodaeth am sut i greu cyfrif iPay:

*Noder nad yw'r ysgol yn cyfrannu at gostau dysgwyr PYDd sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol.